# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Cyffredinol*

## 27 Dehongli

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "alcohol" yw gwirodydd, gwin, cwrw, seidr neu unrhyw ddiod arall sydd wedi ei heplesu, ei distyllu neu sy'n wirodol, ond nid yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol—

- (a) alcohol sydd o gryfder nad yw'n uwch nag 1.2% pan y'i cyflenwir;
- (b) persawr;
- (c) rhinflasau a gydnabyddir gan Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel rhai nas bwriedir i'w hyfed fel diod alcoholaidd dolladwy neu gyda diod o'r fath;
- (d) y rhinflas aromatig a elwir yn gyffredin yn chwerwon Angostura;
- (e) alcohol sy'n gynnyrch meddyginiaethol neu'n gynnyrch meddyginiaethol milfeddygol, neu sydd wedi ei gynnwys mewn cynnyrch o'r fath;
- (f) alcohol sydd wedi ei annatureiddio;
- (g) alcohol methyl;
- (h) nafftha;
- (i) alcohol sydd wedi ei gynnwys mewn melysion gwirod.

(2) At ddibenion is-adran (1)—

mae i "alcohol sydd wedi ei annatureiddio" yr ystyr a roddir i "denatured alcohol" yn adran 5 o Ddeddf Cyllid 1995 (Finance Act 1995 (c. 4));

mae i "cynnyrch meddyginiaethol" yr ystyr a roddir i "medicinal product" yn adran 130 o Ddeddf Meddyginiaethau 1968 (Medicines Act 1968 (c. 67));

mae i "cynnyrch meddyginiaethol milfeddygol" yr ystyr a roddir i "veterinary medicinal product" yn rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013 (Veterinary Medicines Regulations 2013 (SI. 2013/2033));

mae i "diod alcoholaidd dolladwy" yr ystyr a roddir i "dutiable alcoholic liquor" yn Neddf Tollau ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979 (Alcoholic Liquor Duties Act 1979 (c. 4));

ystyr "melysion gwirod" ("*liqueur confectionery*") yw melysion—

(a) sy'n cynnwys alcohol mewn cyfran nad yw'n uwch na 0.2 litr o alcohol (o gryfder nad yw'n uwch na 57%) y cilogram o'r melysion, a

(b) sydd naill ai'n cynnwys darnau ar wahân nad ydynt yn pwyso mwy na 42g neu sydd wedi eu dylunio i gael eu torri yn ddarnau o'r fath at ddiben eu bwyta.

(3) At ddibenion y Ddeddf hon—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "cryfder" ("*strength*") alcohol yw ei gryfder alcoholaidd—

(a) sydd, mewn perthynas ag alcohol sydd wedi ei gynnwys mewn potel neu gynhwysydd arall sydd wedi ei farcio neu ei labelu yn unol â gofynion a osodir drwy unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol neu o dan unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol, i gael ei gymryd fel y cryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint fel y'i dangosir gan y marc neu'r label ar y botel neu'r cynhwysydd;

(b) sydd fel arall i gael ei gyfrifiannu yn unol ag adran 2 o Ddeddf Tollau ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979 (Alcoholic Liquor Duties Act 1979 (c. 4));

ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Trwyddedu 2003 (Licensing Act 2003 (c. 17));

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir) sydd wedi ei gynnwys yn un o'r canlynol, neu mewn offeryn sydd wedi ei wneud o dan un ohonynt—

(a) Deddf Seneddol;

(b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae i "gwerthu drwy fanwerthu" yr ystyr a roddir i "sale by retail" yn Neddf 2003;

mae i "mangre" yr ystyr a roddir i "premises" yn Neddf 2003;

mae i "mangre gymhwysol" ("*qualifying premises*") yr ystyr a roddir yn adran 3;

ystyr "partneriaeth" ("*partnership*") yw—

(a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaethau 1890 (Partnership Act 1890 (c. 39)), neu

(b) partneriaeth gyfyngedig sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (Limited Partnerships Act 1907 (c. 24));

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

mae i "trwydded mangre" yr ystyr a roddir i "premises licence" yn Neddf 2003;

mae i "tystysgrif mangre clwb" yr ystyr a roddir i "club premises certificate" yn Neddf 2003.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 mewn grym ar 10.8.2018, gweler **a. 28(1)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 27.